

## Swyddog Cymunedol a Chyfathrebu

**Mae Cymru Masnach Deg yn chwilio am swyddog cymunedol a chyfathrebu brwdfrydig, sy'n gallu defnyddio eu sgiliau i gefnogi cymunedau ar lawr gwlad yng Nghymru, creu a darparu gweithgarwch cyfathrebu dwyieithog diddorol, a datblygu a dosbarthu adnoddau.**

Byddai'r rôl hon yn addas i chwaraewr tîm cyfeillgar a phrofiadol, sydd wedi ymrwymo i werthoedd Cymru Masnach Deg, sy'n mwynhau amrywiaeth yn eu swydd, ac sy'n gallu blaenoriaethu a threfnu eu llwyth gwaith yn effeithiol. Os ydych chi'n angerddol am gyfiawnder a chydaddoldeb byd-eang, ac eisiau annog pobl i ymgyrchu dros newid a mynd gam ymhellach dros Fasnach Deg, yna gallai hon fod yr union swydd i chi.

Mae Cymru Masnach Deg yn gweithio i gefnogi, tyfu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw creu byd cyfartal, gan ddefnyddio ein gwerthoedd, sef cefnogi, cydweithredu a grymuso. Dewch i ymuno â sefydliad cyfeillgar, Masnach Deg.

Mae Cymru Masnach Deg wedi'i sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant, gyda statws nid er elw. Rydym yn gweithio fel rhan o bartneriaeth [Hub Cymru Africa \(HCA\)](#), ac rydym wedi ein lleoli yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd, mae Hub Cymru Africa yn cael ei ariannu gan raglen [Cymru ac Affrica](#) Llywodraeth Cymru. Bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda Hub Cymru Africa, i sicrhau bod y sector mor effeithiol â phosibl.

### Sut i wneud cais

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, yn esbonio sut rydych yn bodloni 'r manylebau person, a pham rydych chi eisiau gweithio i Cymru Masnach Deg, drwy e-bost at [aileen@cymrumasnachdeg.org.uk](mailto:aileen@cymrumasnachdeg.org.uk) erbyn hanner dydd ar 28 Mehefin.

Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 6/7 Gorffennaf.

### Manylion

Yn adrodd i: Pennaeth Cymru Masnach Deg

Tymor: Parhaol  
Cyflog: NJC band 18, £24,982 (£10k - 15 awr yr wythnos)  
Lleoliad: Y brif swyddfa yng Nghaerdydd; efallai y bydd angen teithio rhywfaint ac aros dros nos; bydd yr opsiwn i weithio o bell ac o leoliadau gweithio eraill yn cael eu hystyried.  
Oriau: 15 awr yr wythnos - 0.4 pro rata  
Pensiwn: Cyfraniad Cyflogwr o 5% o gyflog gros o dan y cynllun NEST, yn amodol ar gyfraniad o 5% gan weithwyr cyflogedig  
Gwyliau blynyddol: 25 diwrnod o wyliau pro rata/ yf ac eithrio gwyliau'r banc  
Gweithio'n hyblyg: Bydd pob cais i weithio'n hyblyg yn cael eu hystyried

## Pwrpas cyffredinol y swydd

Prif bwrpas y rôl ydy:

- Cefnogi ac ymgysylltu â chymuned Cymru Masnach Deg (FTW)
- Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o Fasnach Deg a Chyfiawnder Masnach yn glir ac yn effeithiol
- Cynorthwyo gyda digwyddiadau a phrosiectau sydd wedi cael eu datblygu gan Cymru Masnach Deg a sefydliadau partner
- Cyfrannu at ddatblygu cyfeiriad Cymru Masnach Deg yn y dyfodol

## Disgrifiad o'r swydd

### Allgymorth cymunedol

- Cysylltu â chymuned Cymru Masnach Deg, a'i chefnogi a'i datblygu
- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr cymunedol Cymru Masnach Deg a sefydliadau eraill ar draws Cymru
- Cydlynu a threfnu gweithgareddau'r Bythefnos Masnach Deg yng Nghymru, gan gofio cynnwys cynhyrchwyr Masnach Deg rhyngwladol mewn digwyddiadau

### Cyfathrebu

- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ar gyfer Cymru Masnach Deg, ar y cyd â chydweithwyr Hub Cymru Africa
- Cynhyrchu gweithgarwch cyfathrebu dwyieithog effeithiol ar draws pob sianel Cymru Masnach Deg (gwefan, cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol) a chyfryngau allanol
- Trefnu creu a dosbarthu amrywiaeth o adnoddau dwyieithog ar gyfer y

mudiad Masnach Deg, gan sicrhau bod adnoddau addas ar gael bob amser

- Cadw cronfeydd data a chysylltiadau perthnasol yn gyflawn ac yn gyfoes, yn unol â deddfwriaeth berthnasol

### Cyfrifoldebau ychwanegol

- Sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf am Fasnach Deg, ar lefel fyd-eang a lleol
- Monitro, gwerthuso a dysgu (yn briodol i'w gwaith ac i lefel eu swydd)
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Hub Cymru Africa a Cymru Masnach Deg lle bo'n briodol
- Cefnogi'r rheolwr i sicrhau bod targedau Cymru Masnach Deg yn cael eu cyflawni, gan gynnwys ar waith polisi
- Cydymffurfio â phob cais rhesymol, yn amodol ar fanylebau cyffredinol y rôl

### Manyleb person

Hanfodol	Dymunol
Sgiliau a Chymwyseddau	
<ul style="list-style-type: none"><li>- Y gallu i gyfathrebu'n rhugl drwy gyfrwng y Gymraeg (ar lafar ac yn ysgrifenedig)</li><li>- Gwybodaeth am Ddeddf yr Iaith Gymraeg a'i goblygiadau i'n cefnogwyr a'n rhanddeiliaid</li><li>- Y gallu i ddefnyddio menter, gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm bach</li><li>- Sgiliau trefnu a gweinyddu profedig</li><li>- Dealltwriaeth o ofynion GDPR</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>- Gwybodaeth gryf am faterion Masnach Deg a chyfiawnder masnach</li><li>- Angerdd amlwg dros y mudiad Masnach Deg</li><li>- Profiad o fonitro a gwerthuso gwaith</li><li>- Profiad o ddefnyddio G-suite</li><li>- Yn barod i fod yn Swyddog Cymorth Cyntaf</li><li>- Yn berchen ar drwydded yrru</li></ul>

## Allgymorth cymunedol

- |  |   |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"><li>- Dealltwriaeth o achosion, cymhellion ac anghenion grwpiau cymunedol</li><li>- Y gallu i feithrin perthynas waith dda gydag ystod amrywiol o bobl a chymunedau</li><li>- Profiad o drefnu ymgyrchoedd a digwyddiadau, yn fewnol ac mewn partneriaeth ag eraill</li><li>- Y gallu i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau ar-lein gyda'r gymuned</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>- Gwybodaeth am ddaearyddiaeth Cymru - siroedd/trefi/rhwydweithiau trafndiaeth cyhoeddus mawr</li><li>- Sgiliau hwyluso a chyflwyno</li><li>- Sgiliau rheoli digwyddiadau</li></ul> |
|--|---|

## Cyfathrebu

- |  |   |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"><li>- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog rhagorol (llafar ac ysgrifenedig, Cymraeg a Saesneg) ar draws ystod o lwyfannau a sianelau</li><li>- Wedi rheoli, cynllunio a chreu cynnwys dwyieithog diddorol</li><li>- Sgiliau TG profedig ar nifer o lwyfannau, gan gynnwys Microsoft a Google</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>- Y gallu i ddylunio cynnwys gweledol dengar</li><li>- Profiad o greu a/neu gomisiynu adnoddau dwyieithog</li><li>- Gwybodaeth ymarferol am Wordpress CMS</li><li>- Profiad o reoli cronfeydd data</li><li>- Profiad o reoli adnoddau electronig a chorfforol</li></ul> |
|--|---|